


Archwilio Ein Byd

Fi fy hun ac Eraill



**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Archwilio Ein Byd

Fi fy hun ac Eraill

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO EIN BYD

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrando ar storïau eu ffrindiau, ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well. Gyda'i gilydd, maen nhw'n archwilio'r themâu poblogaidd, sef dathliadau, fi fy hun ac eraill, adegau a thymhorau, teithiau, pobl arbennig, ac arwyddion a symbolau.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer plant iau a phlant hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae chwe llyfr stori yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol (Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd). Teitlau'r chwe llyfr stori yw:

Plant 3 – 5 oed

- Dathliadau
- Fi fy hun ac Eraill
- Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed

- Teithiau
- Pobl Arbennig
- Arwyddion a Symbolau

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrdau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 154 o syniadau am weithgareddau a 11 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres *Archwilio Ein Byd*

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam


Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn ysgolion
- Pam mae'n rhaid i blant fynd i'r ysgol?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl bod yn athro neu athrawes a chroesawu'r plant i'r ysgol
- Siaradwch am y fynedfa i'ch ysgol, a pha bethau sy'n gwneud i'r lle edrych yn gyfeillgar a chroesawgar

Datblygiad iaith Gymraeg

- croeso
- ysgol

Datblygiad corfforol

- Cerddwch i fyny'r llwybr a thrwy giât eich ysgol gyda'ch dosbarth – a yw'n debyg i ysgol Aled a Siân?
- Archwiliwch iard chwarae eich ysgol

Datblygiad creadigol

- Gwnewch arwydd croeso i'ch ysgol neu i'ch ystafell ddosbarth
- Gwnewch gollage o wynebau cyfeillgar

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ymarfer dweud helo wrth y plant eraill yn eich dosbarth
- Dywedwch wrth y naill a'r llall beth ydych chi'n ei fwynhau ynghylch dod i'r ysgol

Datblygiad mathemategol

- Amcangyfrifwch faint o gamau sydd o giât yr ysgol i'r brif fynedfa
- Nawr, gwiriwch eich amcangyfrif drwy gyfrif faint o gamau mae'n ei gymryd (**Gweithgaredd 1**)


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Sawl cam?

Cofnodwch faint o gamau rydych chi'n eu cymryd o giât yr ysgol i'r brif fynedfa drwy liwio'r nifer cywir o gamau. Os ydych chi'n cyfrif mwy na 20 cam, ychwanegwch y nifer o gamau ychwanegol at eich siart a'u lliwio hefyd.





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch sut mae eich ysgol yn gweithio fel cymuned neu deulu
- Holwch ynghylch beth mae'r gwahanol bobl sy'n gweithio yn eich ysgol yn ei wneud

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch ynghylch y ffordd rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi yn yr ysgol
- Dewiswch rai geiriau syml i ddisgrifio eich teimladau (**Gweithgaredd 2**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- ffrindiau
- teulu

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch gêm 'dod i'ch adnabod' gyda'ch ffrindiau ysgol, fel 'pasio'r cylchyn'
- Cerddwch o gwmpas eich ysgol i gwrdd â gwahanol bobl

Datblygiad creadigol

- Tynnwch lun ohonoch chi eich hun ar gyfer arddangosfa dosbarth
- Ysgrifennwch eich enw mewn swigen siarad i'w gosod yn ymyl eich llun

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Ewch ati i ganfod enwau pawb o'r plant eraill yn eich dosbarth
- Darllenwch stori gyda'ch gilydd a siaradwch amdani

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch faint o blant sydd yn eich dosbarth
- Cyfrifwch faint o bobl newydd ydych chi wedi cwrdd â nhw heddiw yn yr ysgol

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Lliwiwch y geiriau sy'n disgrifio sut mae bod yn yr ysgol yn gwneud i chi deimlo.

neu

Torrwch allan y geiriau a dewiswch y rhai rydych chi eisiau siarad amdany'n nhw.

cynhyrfus

diogel

trist

hapus

effro

ofnus

newynog

nerfus

blinedig



Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth yw eglwys a phwy sy'n mynd yno
- Sut beth yw eglwys i edrych arni?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dywedwch wrth y naill a'r llall beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun ar dudalen 9
- Siaradwch am ba bethau a allai ddigwydd mewn eglwys

Datblygiad iaith Gymraeg

- ficer
- eglwys

Datblygiad corfforol

- Cerddwch i'ch eglwys leol
- Smaliwch eich bod yn agor drws mawr trwm yr eglwys a meimiwch yr hyn rydych chi'n meddwl sy'n digwydd mewn eglwys

Datblygiad creadigol

- Gwnewch groesau gan ddefnyddio gwahanol fathau o ddeunyddiau
- Lliwiwch lun o'r ficer yn y stori gan ddefnyddio paent neu greonau
(Gweithgaredd 3)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Meddyliwch am eiriau o groeso cyfeillgar y gallech chi eu dweud wrth rai sy'n ymweld â'ch ysgol
- Gwahoddwch eich ficer lleol i'r ysgol ac ewch ati i ymarfer eich geiriau o groeso cyfeillgar gydag ef neu hi

Datblygiad mathemategol

- Mesurwch y croesau rydych chi wedi eu gwneud
- Nawr gosodwch y croesau yn eu trefn yn ôl maint, gyda'r un lleiaf yn gyntaf

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Gweithgaredd 3

FI FY HUN
AC ERAILL

Lliwiwch y llun o'r ficer gan ddefnyddio paent neu greonau.





Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch pam mae pobl yn hoffi mynd i'r eglwys
- Archwiliwch sut y gallai tu mewn gwahanol eglwysi edrych a beth sydd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gwrandewch ar stori o'r Beibl a siarad amdani
- Dysgwch emyn poblogaidd ar gyfer plant a'i chanu gyda phlant eich dosbarth

Datblygiad iaith Gymraeg

- Beibl
- canu

Datblygiad corfforol

- Meddyliwch am symudiadau ar gyfer y gân rydych chi'n mynd i'w chanu gyda'ch gilydd
- Actiwch stori o'r Beibl rydych chi wedi ei chlywed

Datblygiad creadigol

- Crëwch fasnau o'r cymeriadau o'r stori o'r Beibl rydych chi wedi ei chlywed
- Tynnwch lun un o'r cymeriadau yn y stori

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch beth mae'n ei olygu i 'deimlo'n ddiogel' (**Gweithgaredd 4**)
- Siaradwch am ble rydych chi'n teimlo'n ddiogel a hapus

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl ydych chi'n gallu eu gweld yn y llun ar dudalen 10?
- Faint o blant eich dosbarth sydd wedi bod mewn eglwys gyda'u teulu?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Gweithgaredd 4

**FI FY HUN
AC ERAILL**

Tynnwch lun man lle'r ydych chi'n teimlo'n ddiogel a hapus.
Beth sydd ynghylch y lle hwn sy'n gwneud i chi deimlo'n
ddiogel a hapus yno?



Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth yw synagog, a phwy sy'n mynd yno
- Sut beth yw synagog i edrych arni?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dywedwch wrth y naill a'r llall beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun ar dudalen 13
- Pa gwestiynau ydych chi eisiau eu gofyn am y llun?

Datblygiad iaith Gymraeg

- rabbi
- synagog

Datblygiad corfforol

- Cymrwch eich tro i smalio bod yn rabi yn arwain pobl o gwmpas synagog
- Meimiwch gerdded i fyny ac i lawr y grisiau yn y synagog

Datblygiad creadigol

- Chwiliwch am luniau nifer o wahanol gadwyni gwddf gyda Seren Dafydd arnyn nhw
- Gwnewch gollage o luniau cadwyni gwddf gyda Seren Dafydd arnyn nhw

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Meddyliwch ynghylch pam mae pethau arbennig yn cael eu cadw mewn llyfydd diogel i'w harddangos (fel sgroliau'r Torah)
- Siaradwch am bethau arbennig gartref neu yn yr ysgol sy'n cael eu harddangos mewn ffordd ddiogel (**Gweithgaredd 5**)

Datblygiad mathemategol

- Casglwch luniau cadwyni gwddf gyda Seren Dafydd arnyn nhw a'u dosbarthu yn ôl math, e.e. rhai arian ac aur
- Chwaraewch rôl bod yn siopwr gemwaith yn gwerthu cadwyni gwddf gan ddefnyddio rhestr brisiau ac arian chwarae

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol







Sgroliau'r Torah

Mae sgroliau'r Torah yn arbennig i Iddewon. Maen nhw'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd arbennig yn y synagog. Maen nhw'n cael eu cadw mewn man lle bydd pawb yn gallu eu gweld.

- Tynnwch lun rhywbeth arbennig arall sy'n cael i arddangos yn ddiogel.





Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch pam mae pobl yn hoffi mynd i'r synagog
- Archwiliwch sut y gallai tu mewn gwahanol synagogau edrych, a beth sydd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gwrandewch ar stori o'r Torah a siarad amdani
- Chwaraewch rôl sefyll wrth y ddarllenfa, a smaliwch ddarllen y stori o'r Torah yn uchel

Datblygiad iaith Gymraeg

- Torah
- Iddew

Datblygiad corfforol

- Actiwch stori o'r Torah
- Gwnewch symudiadau ar gyfer cân gŵyl Iddewig y gallech chi eu gwneud gyda'ch gilydd

Datblygiad creadigol

- Dysgwch gân gŵyl Iddewig boblogaidd ar gyfer plant a'i chanu gyda phlant eich dosbarth
- Tynnwch lun un o'r cymeriadau yn y stori

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch pam bod pwyntydd (yad) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darllen sgrôl y Torah
- Siaradwch am bethau eraill na ddylech chi eu cyffwrdd, a'r rhesymau pam (**Gweithgaredd 6**)

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl ydych chi'n gallu eu gweld yn y llun ar dudalen 14?
- Faint o blant eich dosbarth sydd wedi bod mewn synagog gyda'u teulu?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Peidiwch â chyffwrdd!

Pa bethau dydyn ni **ddim** yn cael eu cyffwrdd? Tynnwch luniau'r pethau hyn yn y cylchoedd gan feddwl am resymau pam.


Cysegredig!



Peryglus!




Bregus!





Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth yw mosg a phwy sy'n mynd yno
- Sut beth yw mosg i edrych arno?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dywedwch wrth y naill a'r llall beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun ar dudalen 17
- Siaradwch ynghylch pam rydych chi'n gwisgo esgidiau, ac am adegau y byddwch chi'n tynnu eich esgidiau

Datblygiad iaith Gymraeg

- esgidiau
- mosg

Datblygiad corfforol

- Siaradwch am weithgareddau corfforol sy'n well eu gwneud heb esgidiau am eich traed e.e. gymnasteg, dawnio, a mynd ati i'w gwneud
- Siaradwch am weithgareddau corfforol sy'n well eu gwneud gydag esgidiau am eich traed e.e. chwaraeon awyr agored, a mynd ati i'w gwneud

Datblygiad creadigol

- Casglwch luniau o wahanol fathau o bethau sy'n cael eu gwisgo am y traed a gnewch gollage ohonyn nhw
- Dyluniwch bâr o esgidiau at bwrpas neilltuol

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch ynghylch pam mae pobl yn tynnu eu hesgidiau wrth fynd i mewn i rai tai, mannau addoli neu ystafelloedd
- Dychmygwch eich bod yn mynd i mewn i fosg neu i dŷ ffrind, ewch ati i ymarfer tynnu eich esgidiau cyn mynd i mewn – sut deimlad yw hynny?

Datblygiad mathemategol

- Casglwch luniau o wahanol bethau sy'n cael eu gwisgo am y traed, a'u dosbarthu i wahanol fathau e.e. sandalau, esgidiau rhedeg, sliperi
- Chwaraewch rôl gweithio mewn siop esgidiau yn gwerthu pethau i'w gwisgo am y traed

(Gweithgaredd 7)







Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Ymchwilio traed








Torrwch allan y lluniau o wahanol bethau sy'n cael eu gwisgo am y traed, a'u dosbarthu i wahanol fathau.





Ymchwilio traed

Torrwch allan y lluniau o wahanol bethau sy'n cael eu gwisgo am y traed, a'u dosbarthu i wahanol fathau.





Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch pam mae pobl yn hoffi mynd i'r mosg
- Archwiliwch sut y gallai tu mewn gwahanol fosgiau edrych, a beth sydd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gwrandewch ar stori o'r Qur'an a siaradwch amdani
- Gwrandewch ar recordiad o rywun yn darllen o'r Qur'an mewn Arabeg

Datblygiad iaith Gymraeg

- Qur'an
- gweddïo

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer gwahanol ffyrdd o eistedd yn gyfforddus ar y llawr
- Trwy gyfrwng meim, actiwch stori o'r Qur'an rydych chi wedi gwrandao arni

Datblygiad creadigol

- Gwnewch arddangosfa o batrymau geometrig
- Tynnwch lun un o'r cymeriadau o stori yn y Qur'an (ond peidiwch â thynnu llun y Proffwyd Muhammad)


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch draddodiadau ble mae pobl yn eistedd ar y llawr ar gyfer rhai gweithgareddau neilltuol fel gwrandao neu fwyta, er enghraifft
- Pa fath o gyfarchiad y byddai Ahmed a Salma yn debygol o'i ddweud wrth eu ffrindiau newydd yn y mosg?

Datblygiad mathemategol

- Gwnewch batrwm geometrig (**Gweithgaredd 8**)
- Faint o blant eich dosbarth sydd wedi bod mewn mosg gyda'u teulu?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol







Gwnewch batrwm geometrig.


Lliwiwch y siâp croes yn wyrdd a'r siâp seren yn las.

Gofynnwch i oedolyn eich helpu i dorri'r siapiau. Ffitiwch y siapiau ynghyd i wneud patrwm.





Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth yw teml Hindŵaidd a phwy sy'n mynd yno
- Sut beth yw teml Hindŵaidd i edrych arni?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dywedwch wrth y naill a'r llall beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun ar dudalen 21
- Pa gwestiynau ydych chi eisiau eu gofyn am y llun?

Datblygiad iaith Gymraeg

- offeiriad
- teml

Datblygiad corfforol

- Gyda phartner, ceisiwch sefyll fel y duw Shiva ar dudalen 21
- Smaliwch ddringo'r grisiau at ddrws y deml a chwrdd â'r offeiriad y tu mewn iddi

Datblygiad creadigol

- Arbrofwch gymysgu paent i wneud rhai o'r lliwiau rydych chi'n eu gweld mewn teml Hindŵaidd
- Lliwiwch lun o Shiva gan ddefnyddio paent neu greonau (**Gweithgaredd 9**)


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am y math o wisg rydych chi'n ei gweld ar dudalen 20 ac archwiliwch y wisg
- Siaradwch am sut y dylech chi ymddwyn wrth i chi gwrdd â phobl newydd

Datblygiad mathemategol

- Faint o wahanol dduwiau a duwiesau Hindŵaidd y gallwch chi eu casglu?
- Nawr, dosbarthwch y rhain yn 'dduwiau' a 'duwiesau' a'u cyfrif

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Y duw Hindŵaidd Shiva

Lliwiwch y llun o'r duw Hindŵaidd Shiva.
Beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun?





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Archwiliwch pam mae pobl yn hoffi mynd i'r deml Hindŵaidd
- Archwiliwch sut y gallai tu mewn gwahanol demlau Hindŵaidd edrych, a beth sydd ganddyn nhw i gyd yn gyffredin

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gwrandewch ar stori o'r Gita a siaradwch amdani
- Siaradwch am eich hoff ganeuon ac am sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n eu canu (**Gweithgaredd 10**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- cerddoriaeth
- Hindŵ

Datblygiad corfforol

- Dawnsiwch i gerddoriaeth 'Hindŵaidd' draddodiadol
- Trwy gyfrwng meim, actiwch stori Hindŵaidd rydych chi wedi gwrandao arni o'r Gita

Datblygiad creadigol

- Gwrandewch ar gerddoriaeth 'Hindŵaidd' draddodiadol
- Tynnwch lun un o un o'r cymeriadau yn y stori

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwrandewch ar wahanol fathau o gerddoriaeth o amrywiaeth o ddiwylliannau
- Pa fath o gyfarchion y byddai Rajeev a Meena yn debygol o'u dweud wrth eu ffrindiau newydd yn y deml?

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl ydych chi'n gallu eu gweld yn y llun ar dudalen 22?
- Faint o blant eich dosbarth sydd wedi bod mewn teml Hindŵaidd gyda'u teulu?



Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Cerddoriaeth a theimladau

Gwrandewch ar wahanol ddarnau o gerddoriaeth a
siaradwch ynghylch sut maen nhw'n gwneud i chi deimlo.
Defnyddiwch y lluniau i'ch helpu.





Tudalen 24



Tudalen 25

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Siaradwch am wahanol fathau o deuluoedd
- Beth sydd gan y teuluoedd yn y stori yn gyffredin iddyn nhw i gyd?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gwrandewch ar storïau'r naill a'r llall am y teuluoedd y maen nhw'n perthyn iddyn nhw
- Siaradwch am sut mae perthyn i deulu yn gwneud i chi deimlo (y rhannau da a'r rhannau sydd ddim mor dda)

Datblygiad iaith Gymraeg

- perthyn
- storïau

Datblygiad corfforol

- Mewn parau, meimiwch beth sy'n digwydd yn y teuluoedd rydych chi wedi clywed amdany'n nhw yn y llyfr
- Crëwch ddawns i ddathlu'r holl wahanol deuluoedd yn eich teulu ysgol

Datblygiad creadigol

- Gwnewch arddangosfa dosbarth am y gwahanol deuluoedd rydych chi wedi eu canfod yn eich dosbarth
- Tynnwch ffotograffau ar gyfer eich arddangosfa

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Siaradwch am y gwahanol 'deuluoedd' y mae eich ffrindiau a chithau'n perthyn iddyn nhw
- Tynnwch lun un o'ch teuluoedd i'w rannu â'ch dosbarth neu grŵp
(**Gweithgaredd 11**)

Datblygiad mathemategol

- Cyfrifwch faint o deuluoedd rydych chi wedi cwrdd â nhw yn y stori i gyd
- Faint o deuluoedd ydych chi'n meddwl sydd yn eich teulu ysgol?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Teuluoedd

Dyma rai lluniau o'r teuluoedd yn y stori.
Tynnwch lun teulu rydych chi'n perthyn iddo.





Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (3-5)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill;
- ystyried **dylanwad** agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar fywyd sydd wedi rhoi arweiniad i fywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol, yn lleol ac yng Nghymru;
- gofyn **cwestiynau** am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill;
- archwilio a mynegi **ystyr** mewn ffyrdd creadigol (drwy gelf, dawns, defod, arteffactau);
- rhannu eu **hymatebion personol** i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig;
- dangos **cyfrifoldeb**, gofal a/neu bryder am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio pam mae croesawu pobl yn bwysig i draddodiadau crefyddol.

laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl bod yn athro neu athrawes a chroesawu'r plant i'r ysgol.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Rhannu eu **hymatebion personol** i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig.

Archwilio sut rydych chi'n teimlo wrth i rywun roi croeso i chi.

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dywedwch wrth y naill a'r llall beth ydych chi'n ei fwynhau ynghylch dod i'r ysgol.





Tudalennau 6-7

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio pam bod cymunedau neu deulu'n bwysig iawn i draddodiad crefyddol. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Archwiliwch sut mae eich ysgol yn gweithio fel cymuned neu deulu.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Dangos cyfrifoldeb, gofal a/neu bryder am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio eich cyfrifoldeb ynghylch croesawu pobl eraill. Datblygiad corfforol • Chwaraewch gêm 'dod i'ch adnabod' gyda'ch ffrindiau ysgol, fel 'pasio'r cylchyn'.
---	--



Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu



Cael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio'r teulu Cristnogol a'r eglwys.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth yw eglwys a phwy sy'n mynd yno.

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu



Ystyried **dylanwad** agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar fywyd sydd wedi rhoi arweiniad i fywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol, yn lleol ac yng Nghymru.

Archwilio sut mae'r stori Gristnogol yn dylanwadu ar y ficer.

Datblygiad creadigol

- Lliwiwch lun o'r ficer yn y stori gan ddefnyddio paent neu greonau.



Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio beth mae'r Beibl yn ei olygu i Gristnogion. Datblygiad corfforol • Actiwch stori o'r Beibl rydych chi wedi bod yn gwrando arni.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Rhannu eu hymatebion personol i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig. Archwilio sut deimlad yw bod yn 'teimlo'n ddiogel'. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Siaradwch am ble rydych chi'n teimlo'n ddiogel a hapus.
---	--



Tudalennau 12-13

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio'r teulu Iddewig a'r synagog. laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu Dywedwch wrth y naill a'r llall beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun ar dudalen 13.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ystyried dylanwad agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar fywyd sydd wedi rhoi arweiniad i fywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol, yn lleol ac yng Nghymru. Archwilio sut mae'r stori Iddewig yn dylanwadu ar y rabi. Datblygiad corfforol Cymrwch eich tro i smalio bod yn rabi yn arwain pobl o gwmpas synagog.
---	---



Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio beth mae'r Torah yn ei olygu i Iddewon. <i>laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu</i> • Gwrandewch ar stori o'r Torah a siarad amdani.
Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Rhannu eu <i>hymatebion personol</i> i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig. Archwilio eich ymateb i felodi a naws cân Iddewig. <i>Datblygiad creadigol</i> • Dysgwch gân gŵyl Iddewig boblogaidd ar gyfer plant a'i chanu gyda phlant eich dosbarth.



Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio'r teulu Islamaidd a'r mosg. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Holwch ynghylch beth yw mosg a
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ystyried dylanwad agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol ar fywyd sydd wedi rhoi arweiniad i fywydau pobl, yn y gorffennol a'r presennol, yn lleol ac yng Nghymru. Archwilio pam mae imam yn tynnu ei esgidiau yn y mosg. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Siaradwch ynghylch pam mae pobl yn tynnu eu hesgidiau wrth fynd i mewn i rai tai, mannau addoli neu ystafelloedd.
---	--



Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Gofyn cwestiynau am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill. Archwilio beth mae'r Qur'an yn ei olygu i Fwslimiaid. Datblygiad creadigol Tynnwch lun un o'r cymeriadau o stori yn y Qur'an.
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio a mynegi ystyr mewn ffyrdd creadigol (drwy gelf, dawns, defod, arteffactau). Archwilio sut mae ffydd grefyddol yn cael ei mynegi drwy batrwm geometrig. Datblygiad mathemategol Gwnewch batrwm geometrig.
---	---



Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i hunaniaeth, ffordd o fyw a thraddodiadau ysbrydol, moesol a diwylliannol hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio'r teulu Hindŵaidd a'r deml.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth yw Teml Hindŵaidd a phwy sy'n mynd yno.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Archwilio a mynegi **ystyr** mewn ffyrdd creadigol (drwy gelf, dawns, defod, arteffactau).

Archwilio sut mae'r duw Shiva yn mynegi grym dwyfol.

Datblygiad creadigol

- Lliwiwch lun o Shiva gan ddefnyddio paent neu greonau.





Tudalennau 22-23

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio beth mae'r Gita yn ei olygu i Hindŵiaid.

laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Gwrandewch ar stori o'r Gita a siaradwch amdani.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Rhannu eu ***hymatebion personol*** i gwestiynau personol, ysbrydol a moesol pwysig.

Archwilio eich ymateb i gerddoriaeth draddodiadol Hindŵaidd.

Datblygiad corfforol

- Dawnsiwch i gerddoriaeth draddodiadol 'Hindŵaidd'.





Tudalennau 24-25

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** am eu credoau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau hwy eu hunain a phobl eraill.

Archwilio beth sydd gan y gwahanol draddodiadau crefyddol yn gyffredin.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Beth sydd gan y teuluoedd yn y stori yn gyffredin iddyn nhw i gyd?



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Dangos **cyfrifoldeb**, gofal a/neu bryder am bethau byw ac am y byd naturiol.

Archwilio'r parch tuag at wahanol draddodiadau crefyddol.

Datblygiad corfforol

- Mewn paru, meimiwch beth sy'n digwydd yn y teuluoedd rydych chi wedi clywed amdanyn nhw yn y llyfr.

